**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 10 Medi 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | D H Hopkins | C L Philpott |
| P M Black | L James | S Pritchard |
| J E Burtonshaw | O G James | A Pugh |
| M C Child | Y V Jardine | J A Raynor |
| J P Curtice | J W Jones | C Richards |
| P Downing | L R Jones | K M Roberts |
| C R Doyle | M H Jones | B J Rowlands |
| M Durke | P K Jones | M Sherwood |
| C R Evans | S M Jones | R V Smith |
| W Evans | E J King | A H Stevens |
| E W Fitzgerald | E T Kirchner | R C Stewart |
| R Francis-Davies | M A Langstone | D G Sullivan |
| S J Gallagher | A S Lewis | M Sykes |
| L S Gibbard | M B Lewis | G J Tanner |
| F M Gordon | W G Lewis | M Thomas |
| K M Griffiths | C E Lloyd | L G Thomas |
| J A Hale | P Lloyd | W G Thomas |
| D W Helliwell | I E Mann | L J Tyler-Lloyd |
| T J Hennegan | P M Matthews | G D Walker |
| C A Holley | P N May | L V Walton |
| P R Hood-Williams | H M Morris | T M White |
| B Hopkins | D Phillips | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Paula O'Connor | Lay Member of Audit Committee |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): N J Davies, A M Day a/ac R D Lewis

---

**160. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan yn unig. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, M C Child, J P Curtice, R Francis-Davies, J A Hale, T J Hennegan, A S Lewis, C E Lloyd, M Sherwood, R V Smith a G D Walker gysylltiad personol â Chofnod 169 "Datganiad o Gyfrifon 2019/20".

## 161. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2020.

## 162. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 163. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Cydymdeimladau

### a) Cyn-gynghorydd W Gethin Evans

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y cyn-Gynghorydd W Gethin Evans. Bu'r Cynghorydd Gethin Evans yn gwasanaethu ward Pontybrenin ar y Cynghorau canlynol am tua 17 o flynyddoedd:

- Cyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw - 2 Mai 1991 tan 31 Mawrth 1996
- Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg – 6 Mai 1993 i 31 Mawrth 1996
- Dinas a Sir Abertawe - 4 Mai 1995 i Mai 2008.

Bu'r Cynghorydd Gethin Evans hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

### b) Cyn-Ddirprwy Reolwr Digwyddiadau Arbennig, John Birmingham

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar John Birmingham, cyn-Ddirprwy Reolwr Digwyddiadau Arbennig. Ymddeolodd John ym mis Mawrth 2018 ac roedd yn ffigwr allweddol wrth helpu i gyflwyno'r Eisteddfod Genedlaethol i Abertawe yn 2006.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**2) Lucy Moore - Cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth Cymdeithas y Gyfraith**

Cyhoeddodd y Llywydd fod Lucy Moore, Rheolwr Cyfreithiol Gofal Plant, wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth Cymdeithas y Gyfraith, yr anrhydedd uchaf i gyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr.

Mae Lucy wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y categori Cyfreithwyr Mewnol a hi yw'r unig gyfreithiwr awdurdod lleol ar y rhestr fer. Mae hi wedi cyrraedd y rhestr fer am y gwaith rhagorol y mae wedi'i wneud ar lefel genedlaethol gyda'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus dan gadeiryddiaeth yr Anrhydeddus Mr Ustus Keehan a fydd yn y pen draw yn arwain at welliannau yn y ffordd o ddiogelu plant. Bydd enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn cyfres o seremonïau ar-lein o 13 Hydref 2020.

**3) Cywiriadau/Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y dylai’r ymateb i “Cwestiwn 4 - Eitem 15, Cwestiynau i Gynghorwyr" fod yn enw "Arweinydd y Cyngor".

## 164. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Julie Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theulu - Ymddeol**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai Julie Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymddeol yn fuan. Diolchodd iddi am ei chyfraniad enfawr i Gyngor Abertawe ac am ei chyflawniadau yn ystod y cyfnod hwnnw. Rhoddodd ddymuniadau gorau'r cyngor iddi ar gyfer y dyfodol.

Adleisiodd y Cynghorwyr E J King a P R Hood-Williams eiriau Arweinydd y Cyngor, gan dalu teyrnged hefyd i Julie Thomas.

**2) COVID-19**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y cynnydd diweddar yn nifer yr achosion COVID-19 a dywedodd fod Cyngor Abertawe ynghyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot ar fin rhyddhau taflen gyngor i'r holl breswylwyr er mwyn rhoi cyngor am y pandemig a gobeithio atal neu leihau effaith yr ail don.

## 165. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 166. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2019/20.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (Paula O'Connor), Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2019-2020 . Mae'r adroddiad yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Dylid nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2019-2020.

## 167. Penodi Aelod Lleyg Ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau adroddiad a oedd yn amlinellu argymhelliad y Pwyllgor Archwilio ar 30 Mehefin 2020 ynghylch penodi Aelod Lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Dylid recriwtio Aelod Lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio.

## 168. Adroddiad Archwilio Cymru - Adroddiad Archwilio Cyfrifon - Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd Jason Garcia, Swyddfa Archwilio Cymru "Adroddiad Archwilio Cyfrifon 2019-2020 ar gyfer Dinas a Sir Abertawe".

Ymatebodd Geraint Norman (SAC) i gwestiynau technegol eu natur ac ymatebodd Ben Smith (Swyddog Adran 151) i gwestiynau'n ymwneud â sefyllfa Dinas a Sir Abertawe.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo a llofnodi'r Llythyr Sylwadau Terfynol.

2) Cymeradwyo'r datganiad.

## 169. Datganiad o Gyfrifon 2019/20.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2019-2020 ar 15 Medi 2020 neu cyn hynny.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2019-2020 fel y'i nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

## 170. Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Gangen Abertawe o Gymdeithas y Llynges Fasnachol.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn gofyn am ystyried rhoi Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Gangen Abertawe o Gymdeithas y Llynges Fasnachol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Rhoi Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Gangen Abertawe o Gymdeithas y Llynges Fasnachol.

2) Trefnir Cyfarfod Seremonïol o'r Cyngor ar ddyddiad i'w gadarnhau.

## 171. Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad gwybodaeth ar y cyd yn nodi'r diwygiadau a wnaed gan y Swyddog Monitro i Gyfansoddiad y Cyngor yn dilyn newidiadau rheoli a staffio i strwythur yr Adran Addysg.

## 172. Dynodi Cyfarwyddwr Addysg Statudol Dros Dro.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn ceisio penodi Pennaeth Cyflawniad a Phartneriaeth yn Gyfarwyddwr Addysg Statudol dros dro.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Penodi Helen Morgan-Rees, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth yn Gyfarwyddwr Addysg Statudol y cyngor dros dro. Bydd hyn am gyfnod o dri mis i ddechrau a bydd yn dod i rym tra bo'r Cyfarwyddwr Addysg Statudol presennol Nick Williams ar absenoldeb oherwydd salwch.

2) Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau i ymestyn y cyfnod o dri mis os bydd Nick Williams yn parhau i fod ar absenoldeb oherwydd salwch.

## 173. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A

Cyflwynwyd saith (7) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar gyfer y cwestiynau atodol.

### 2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B

Ni chyflwynwyd unrhyw 'Gwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'.

## 174. Rhybudd o Gynnig: Cwricwlwm Newydd.

Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorwyr R C Stewart, D H Hopkins, J A Raynor, C A Holley, L R Jones a P N May

*"Y Cwricwlwm Newydd a 'Chymunedau, cyfraniadau a chynefin: Profiadau BAME a gweithgor newydd y cwricwlwm*

*Mae'r cyngor hwn yn croesawu cwricwlwm newydd Cymru ac mae wedi ymrwymo i'w weithredu'n llwyddiannus a'r gwelliant mewn addysgu a dysgu a fydd yn ei gynnig.*

*Rydym yn cydnabod bod ymgorffori'r cwricwlwm newydd yn gofyn am adnoddau priodol i sicrhau bod ein hamrywiaeth gyfoethog yn cael ei hadlewyrchu ar draws pob elfen o'r cwricwlwm ac ym mhob un o'n hysgolion.*

*Mae'r cyngor hwn yn cefnogi penodiad Llywodraeth Cymru o'r Athro Charlotte Williams i gadeirio'r gweithgor cwricwlwm newydd, i weithio gydag Estyn, wrth adolygu a datblygu'r adnoddau dysgu i gefnogi addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau BAME.*

*Mae'r cyngor hwn wedi penderfynu:*

1. *Gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu at yr Athro Williams i addo cefnogaeth y cyngor hwn i'r gweithgor.*

2. *Cyfarwyddo'r adran Addysg i weithio gydag ysgolion, colegau a'r gymuned leol i gyfrannu at ymchwil a datblygu adnoddau gyda'r gweithgor.*

3. *Defnyddio Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg i rannu ei adnodd gwych o ddogfennau a recordiadau i gefnogi'r gweithgor."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.25 pm

**Cadeirydd**